# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Hydref 13eg 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Euros Puw, Jean Roberts, Rhys Richards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Huw Charles, a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi 8fed a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-
i) Cyffordd Parc yn Werngoch – roedd y cais am arwyddion ychwanegol wedi cael ei basio'n mlaen i'r Uned Draffig yng Nghaernarfon.
ii) Ffosydd ger Trem Nodol, Llidiardau a Pentre Duldog, Rhyduchaf – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r gweithlu gwbwlhau'r gwaith.
iii) Cones ar y ffordd ger Ty'n Ffordd Rhyduchaf – cafwyd cadarnhad fod y gwaith o ddiogelu'r ffordd wedi cael ei gwbwlhau.
iv) Ceir yn parcio ar ochr y ffordd ger Maes y Dail, Celyn – eto roedd y mater wedi cael ei basio'n mlaen i'r Uned Draffig yng Nghaernarfon.
v) Ffos wedi rhoi ger giât Ty'n Rhos, Parc – roedd yr Arolygwr Priffyrdd am gadw golwg ar y safle.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.
i) Cyngor Tref Nefyn - Cais am gefnogaeth i'r cynnig o atal tai rhag mynd o afael pobl leol. Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth y Cyngor.
ii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – copi o'i 'Adroddiad Blynyddol 2020/21'.
iii) Parc Cenedlaethol Eryri – Gwybodaeth am eu Cronfa Prosiectau Cymuned.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-
NP5/72/247 - Trosi ac addasu adeiladau allanol i ystafelloedd gwely ychwanegol i'r annedd cysyllteidig. Llidiardau Bach, Llidiardau.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebrill-Medi), TWE.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pryd oedd y bin amal bwrpas yn cael ei osod wrth y cae chwarae yn Parc.
b) Gofynnwyd i'r clerc basio diolch y Cyngor ymlaen i Gyngor Gwynedd am eu gwaith o glirio'r coed ger chwarel Arenig.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed am 8.00 y.h. drwy gyfrwng "Zoom".